
# Gweithdrefnau Gêm Jungle Jackpot




### Cyflwyniad

Dyma'r Gweithdrefnau Gêm ar gyfer JUNGLE JACKPOT (y "Gêm"). Pan gaiff y Gêm ei chwarae, mae'r Rheolau ar gyfer Gemau Cardiau Crafu (y "Rheolau") a'r Gweithdrefnau hyn yn berthnasol. Gellir gweld y Rheolau mewn Safleoedd Manwerthu ac ar wefan y Loteri Genedlaethol yn **national-lottery.co.uk**.

Bydd gan unrhyw air neu ymadrodd yn y Gweithdrefnau hyn sydd ag ystyr penodol yr un ystyr â'r un a roddir iddo yn y Gweithdrefnau hyn neu yn y Rheolau (oni fydd y cyd-destun yn nodi'n glir fel arall).

### Manylion y Gêm

Enw'r Gêm: **"JUNGLE JACKPOT"**
Rhif y Gêm: **"Gêm 1363"**
Pris Manwerthu: **£3 am bob Cerdyn Crafu**

Ceir 1 siawns mewn 3.63 o ennill Gwobr ar bob Cerdyn Crafu yn y Gêm hon. Argraffwyd 10,969,620 o Gardiau Crafu ar gyfer y Gêm hon i gychwyn.

### Sut i chwarae ac ennill

Mae'r Ardal Chwarae yn cynnwys pedair adran, un o dan y pennawd 'SCRATCH HERE FIRST YOUR COORDINATES' ("Adran Eich Cyfesurynnau") a thri thabl gwobrau y mae pob un wedi'i labelu fel 'PRIZE TABLE' ("Tabl Gwobrau" yn unigol). Mae Adran Eich Cyfesurynnau yn cynnwys 18 o fotiffau '' (a bydd eu lliwiau yn amrywio). O dan haen pob motiff '' mae cyfesuryn sy'n cynnwys un llythyren ac un rhif ("Symbol Chwarae Eich Cyfesurynnau", gyda'i gilydd "Symbolau Chwarae EichCyfesurynnau").

Mae pob Tabl Gwobrau yn cynnwys llythrennau ar frig pob colofn, a rhifau ar ochr chwith pob rhes. Mae pob rhes lorweddol mewn Tabl Gwobrau yn cynnwys nifer o sgwariau gyda symbolau ar yr haen. Ar ddiwedd pob rhes lorweddol mewn Tabl Gwobrau mae'r gair 'PRIZE' (y "Blwch Gwobr").

I chwarae, yn gyntaf dylech grafu'r haen gyfan oddi ar Adran Eich Cyfesurynnau i ddatgelu 18 o Symbolau Chwarae Eich Cyfesurynnau. Wedyn, crafwch dim ond y sgwariau hynny yn y rhes(i) (l)lorweddol mewn Tabl(au) Gwobrau sy'n cyfateb i Symbolau Chwarae EichCyfesurynnau a ddatgelir o dan haen Adran Eich Cyfesurynnau.

Os caiff gofynion y Rheolau a'r Gweithdrefnau hyn eu bodloni, byddwch yn ennill Gwobr os byddwch, ar ôl crafu dim ond y sgwariau hynny yn y rhes(i) (l)lorweddol yn y Tabl(au) Gwobrau sy'n cyfateb i Symbolau Chwarae Eich Cyfesurynnau a ddatgelir o dan haen Adran Eich Cyfesurynnau, yn datgelu pob Symbol Chwarae mewn rhes lorweddol mewn Tabl(au) Gwobrau. Bydd y Wobr yn gyfwerth â swm y Symbol Gwobr a ddangosir gyda'i Bennawd Gwobr cyfatebol o dan haen y Blwch Gwobr ar gyfer y Rhes gyflawn honno.

Gall Chwaraewr ennill hyd at 5 gwaith ar docyn.

### Symbolau Chwarae ar gyfer Adran Eich Cyfesurynnau

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Symbolau Chwarae | 1A | 1B | 1C | 1D | 1E |
| Symbolau Chwarae | 2A | 2B | 2C | 2D | 2E |
| Symbolau Chwarae | 3A | 3B | 3C | 3D | 3E |
| Symbolau Chwarae | 4A | 4B | 4C | 4D | |
| Symbolau Chwarae | 5A | 5B | 5C | 5D | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Symbolau Chwarae | 6A | 6B | 6C | 6D | |
| Symbolau Chwarae | 7A | 7B | 7C | | |
| Symbolau Chwarae | 8A | 8B | 8C | | |
| Symbolau Chwarae | 9A | 9B | 9C | | |

Bydd 18 o Symbolau Chwarae Eich Cyfesurynnau yn ymddangos o dan haen Adran Eich Cyfesurynnau.

Symbolau Chwarae ar gyfer y Tablau Gwobrau

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Symbolau Chwarae |  |  |  |  |  |
| Symbolau Chwarae |  |  |  |  | |

Bydd tri, pedwar neu bum Symbol Chwarae (yn dibynnu ar y Tabl Gwobr) yn ymddangos o dan haen pob rhes yn y Tablau Gwobrau Ni ellir cyfuno Symbolau Chwarae mewn un rhes mewn Tabl Gwobrau â Symbolau Chwarae mewn unrhyw res arall nac ag unrhyw Symbolau Chwarae mewn unrhyw Dabl Gwobrau arall, i ennill.

Symbolau Gwobr a Phenawdau Gwobr

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Symbolau Gwobr | £3.00 | £5.00 | £10.00 | £20.00 | £30.00 |
| Penawdau Gwobr | THREE | -FIVE | -TEN- | TWNTY | THRTY |
| Symbolau Gwobr | £100 | £500 | £1,000 | £10,000 | £300K |
| Penawdau Gwobr | -HUND | FVHUN | -THOU | TNTHO | TRHTH |

Bydd un Symbol Gwobr gyda'i Bennawd Gwobr cyfatebol yn ymddangos o dan haen pob Blwch Gwobr yn y Tabl Gwobrau. Dim ond y Symbol Gwobr a'i Bennawd Gwobr cyfatebol o dan haen Blwch Gwobr mewn rhes mewn Tabl Gwobrau y gellir eu defnyddio i gadarnhau swm y Wobr y gallech ei hawlio, os o gwbl, mewn perthynas â'r rhes honno.

Y Gwobrau, Nifer y Gwobrau a Thebygolrwydd

| Y Gwobrau | Nifer y Gwobrau Ar Ddechrau'r Gêm | Tebygolrwydd Bras (1 Mewn : ) Ar Ddechrau'r Gêm | Goddefiant ar gyfer y Tebygolrwydd o Ennill os caiff rhagor o gardiau crafu eu hargraffu |
|---|---|---|---|
| £3 | 1,096,928 | 10 | +/- 5.00% |
| £5 | 1,060,417 | 11 | +/- 5.00% |
| £10 | 219,412 | 50 | +/- 5.00% |
| £10 £5 x 2 | 365,686 | 30 | +/- 5.00% |
| £20 | 36,555 | 301 | +/- 5.00% |
| £20 £5 x 4 | 182,792 | 61 | +/- 5.00% |
| £20 £10 x 2 | 36,585 | 300 | +/- 5.00% |
| £30 | 2,347 | 4,674 | +/- 5.00% |
| £30 (£5 x 4) + £10 | 8,704 | 1,261 | +/- 5.00% |
| £30 £10 x 3 | 7,392 | 1,484 | +/- 5.00% |
| £30 £10 + £20 | 3,485 | 3,148 | +/- 5.00% |

| Y Gwobrau | | Nifer y Gwobrau Ar Ddechrau'r Gêm | Tebygolrwydd Bras (1 Mewn : ) Ar Ddechrau'r Gêm | Goddefiant ar gyfer y Tebygolrwydd o Ennill os caiff rhagor o gardiau crafu eu hargraffu |
|---|---|---|---|---|
| £100 | | 699 | 15,694 | +/- 5.00% |
| £100 | £10 + (£30 x 3) | 1,393 | 7,875 | +/- 5.00% |
| £100 | (£10 x 2) + £20 + (£30 x 2) | 1,750 | 6,269 | +/- 5.00% |
| £500 | | 85 | 129,055 | +/- 10.03% |
| £500 | £100 x 5 | 88 | 124,655 | +/- 10.03% |
| £1,000 | | 8 | 1,371,203 | +/- 36.55% |
| £1,000 | £500 x 2 | 52 | 210,955 | +/- 13.08% |
| £10,000 | | 2 | 5,484,810 | +/- 36.55% |
| £300,000 | | 3 | 3,656,540 | +/- 36.55% |

Wrth i'r Gwobrau gael eu hennill, bydd nifer y Gwobrau sydd ar gael ym mhob categori yn lleihau yn unol â hynny. Ar ôl i'r Wobr uchaf olaf gael ei dilysu, caniateir i Fanwerthwyr barhau i werthu'r Cardiau Crafu hynny sydd eisoes wedi'u hactifadu i'w gwerthu a chaiff unrhyw Gardiau Crafu nad ydynt wedi'u hactifadu eu tynnu'n ôl. Er mwyn dod o hyd i'r wybodaeth ddiweddaraf am y Gwobrau, ewch i **national-lottery.co.uk** neu ffoniwch Linell y Loteri Genedlaethol ar **0333 234 5050**. Ni fydd galwadau yn costio mwy na galwadau i rifau 01 a 02. Os yw eich tariff ffôn yn cynnwys galwadau i linellau tir, caiff galwadau i rifau 03 eu cynnwys ar yr un sail.

### Gwerth Gwobrau yn Y Gêm

Mae cyfanswm gwerth Gwobrau'r Cardiau Crafu a argraffwyd ar gyfer y Gêm i gychwyn yn cynrychioli 65.85% o gyfanswm gwerth enwol y Cardiau Crafu. £21,671,029 yw cyfanswm gwerth Gwobrau'r Cardiau Crafu a argraffwyd ar gyfer y Gêm i gychwyn.

Mae nifer y Gwobrau y gellir eu hennill gan y Cardiau Crafu a argraffwyd ar gyfer y Gêm i gychwyn yn cyfateb i nifer y Cardiau Crafu a gofnodwyd ar System Gyfrifiadurol Allwyn ac yr hysbyswyd y Comisiwn Hapchwarae amdanynt yn ffurfiol cyn gwerthu unrhyw Gardiau Crafu. Ni chaiff y manylion yn y Gweithdrefnau hyn eu diwygio er mwyn ystyried unrhyw Gardiau Crafu a werthir neu a gollir yn y dyfodol, Cardiau Crafu a gaiff eu tynnu'n ôl yn y dyfodol (lle y caiff y Cardiau Crafu hynny eu tynnu'n ôl gan Allwyn heb wybod a ydynt yn Gardiau Crafu â Gwobrau), na Chardiau Crafu ychwanegol a gaiff eu hargraffu ar gyfer y Gêm. Os bydd gwobr uchaf ar gael o hyd, gall Allwyn argraffu Cardiau Crafu ychwanegol ar gyfer y Gêm hon. Os caiff Cardiau Crafu ychwanegol eu hargraffu ar gyfer y Gêm hon, o ran y Cardiau Crafu ychwanegol hynny, bydd y tebygolrwydd cyffredinol o ennill Gwobr ar bob lefel Gwobr, gan ystyried y lefelau goddefiant a nodir yn y tabl uchod, yr un fath ag ar gyfer y Cardiau Crafu a argraffwyd ar gyfer y Gêm i gychwyn.

### Cyffredinol

Os bydd unrhyw wrthdaro rhwng y Rheolau, y Gweithdrefnau hyn ac unrhyw wybodaeth arall a gyhoeddir gan Allwyn o ran y Gêm hon, y Rheolau fydd drechaf, yna'r Gweithdrefnau ac yna unrhyw wybodaeth arall a gyhoeddir gan Allwyn.